Hawdd ei Ddeall

# Welsh Arts Anti-Racist Union

## Adroddiad ynglŷn â rhwystro gwrth-hiliaeth yn y celfyddydau

Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan y ‘**Welsh Arts Anti Racist Union**’. Mae’n fersiwn hawdd ei ddeall o ‘**Welsh Arts Anti Racist Union Rhan 3 – Adroddiad Terfynol**’.

**Medi 2021**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai y bydd arnoch chi angen help o hyd i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Efallai bydd geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn anodd i'w deall. Gallwch edrych beth mae'r geiriau mewn glas yn meddwl ar **dudalen 25**.

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl '**Welsh Arts Anti Racist Union**'. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

**E-mail:** welshartsantiracistunion@gmail.com

**Twitter:** @theWAARU

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall hwn, cliciwch yma.

# Cynnwys

**Tudalen**

**Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon....................................................2**

**Cyflwyniad.................................................................................... 4**

**Ynglŷn â'r adroddiad hwn............................................................. 5**

Y pethau y daethon ni i wybod yn Rhan 3........................................9

**Beth ddigwyddodd nesaf..............................................................15**

Ein rhestr o ofynion..........................................................................16


**Geiriau anodd..........................................................................  25**

# Cyflwyniad



Ni yw'r **Welsh Arts Anti Racist Union**. Rydyn ni'n **bobl ddu** a **phobl groenliw nad ydynt yn ddu** sy'n gweithio yn y celfyddydau.

Gofynnodd **Cyngor Celfyddydau Cymru** ac **Amgueddfa Cymru** i ni wneud prosiect.




Y prosiect oedd ceisio dod i wybod pam nad yw celfyddydau Cymru yn **amrywiaethol** iawn.



Mae **amrywiaethol** yn meddwl nad ydyn ni i gyd yr un fath. Er enghraifft, mae pobl yn dod o wahanol gefndiroedd, yn gwneud gwahanol ddewisiadau neu'n dda am wahanol betha

# Ynglŷn â'r adroddiad hwn




Mae'r adroddiad hwn ynglŷn â'r pethau y daethon ni o hyd iddyn nhw yn ein prosiect.



A'r syniadau sydd gennym ni ar gyfer gwneud pethau'n well.




Fe rannon ni'r prosiect yn dair rhan.



Mae'r prosiect hwn yn dweud wrthych chi beth wnaethon ni ar gyfer bob rhan. Ond mae'n bennaf ynglŷn â rhan 3.

# Ynglŷn â'r prosiect

## Rhan 1

Ar gyfer rhan 1, fe edrychon ni ar y gwaith yr oedd **Cyngor Celfyddydau Cymru** a **Amgueddfa Cymru** wedi'i wneud yn barod. Roedden nhw wedi ceisio gwneud y celfyddydau'n fwy **amrywiaethol** o'r blaen.



Fe ddaethon ni i wybod eu bod wedi siarad â grwpiau **amrywiaethol** o'r blaen. Ond dim ond â phobl oedd â dim byd i'w wneud â'r celfyddydau.



Wnaethon nhw ddim siarad â **phobl ddu a phobl groenliw nad ydynt yn ddu** oedd yn barod yn gweithio yn y celfyddydau.



Nid yw **Cyngor Celfyddydau Cymru** ac **Amgueddfa Cymru** yn gwybod llawer am **bobl ddu a phobl groenliw nad ydynt yn ddu** sy'n gweithio yn y celfyddydau.



A dydyn nhw ddim yn deall y problemau sydd ganddyn nhw.


# Rhan 2



Ar gyfer Rhan 2, fe siaradon ni â **phobl ddu a phobl groenliw nad ydynt yn ddu** sy'n gweithio yn y celfyddydau. A gofyn iddyn nhw ddweud wrthyn ni am y gwaith hwnnw.



Fe siaradon ni â grwpiau **amrywiaethol** eraill. Er enghraifft, Pobl Anabl, pobl sy'n byw mewn **tlodi,** a phobl **niwrowahanol**.



Mae **tlodi** yn meddwl nad oes gennych chi ddigon o arian i dalu eich biliau a bwydo eich hun a'ch teulu, i wresogi eich cartref, i brynu'r pethau mae arnoch chi eu hangen a mynd o gwmpas.



Mae pobl **niwrowahanol** yn bobl sydd â'u meddyliau yn gweithio mewn gwahanol ffyrdd.



Fe ddaethon ni i wybod nad yw pobl ddu a phobl groenliw nad ydynt yn ddu yn hoffi prosiectau fel hwn. Oherwydd nad yw pethau byth yn newid.



Roedd arnon ni eisiau iddyn nhw wybod bod y prosiect hwn yn wahanol. Ac y gallen nhw ymddiried ynon ni i wneud newidiadau.
Rydyn ni wedi talu iddyn nhw am siarad â ni. Felly roedden nhw'n gwybod eu bod nhw'n bwysig i ni.

# Rhan 3



Rhan 3 oedd y rhan olaf o'n prosiect. Ar gyfer rhan 3, fe gasglon ni'r holl wybodaeth o ran 1 a rhan 2.



Fe siaradon ni â rhai o'r bobl o ran 2 eto.



Fe ddangoson ni iddyn nhw bopeth roedden ni wedi dod i wybod amdano.




Fe ofynnon ni iddyn nhw am eu syniadau i wneud pethau'n fwy **amrywiaethol** yn y celfyddydau.



Fe wrandawon ni ar eu storïau a'u syniadau. A gwneud rhestr o bethau oedd angen newid.

# Y pethau y daethon ni i wybod yn Rhan 3

## Gweithio yn y celfyddydau



Mae llawer o bobl ddu a phobl groenliw nad ydynt yn ddu yn dioddef gan **wahaniaethu** yn y celfyddydau.


Mae rhywun yn **gwahaniaethu** yn eich erbyn pan fyddwch chi'n cael eich trin yn wael neu'n annheg oherwydd eich rhyw, eich hil, eich crefydd, eich anabledd neu eich hunaniaeth rywiol.




Dim ond yn ystod **Mis Hanes Pobl Dduon** y mae rhai **pobl ddu a phobl groenliw nad ydynt yn ddu** yn cael eu cynnwys yn y celfyddydau.




Neu pan fydd hi'n gwneud i gelfyddydau Cymru edrych yn dda. Fel pan oedd **Bywydau Du o Bwys** yn y newyddion.



Mae hyn yn gwneud i **bobl ddu a phobl groenliw nad ydynt yn ddu** beidio ag ymddiried yng **Nghyngor Celfyddydau Cymru** ac **Amgueddfa Cymru.**



Mae hyn yn gwneud i **bobl ddu a phobl groenliw nad ydynt yn ddu** deimlo fel rhoi'r gorau i weithio yn y celfyddydau.


# Cael nawdd ar gyfer prosiectau celfyddyd




I gael **nawdd** ar gyfer prosiectau celfyddyd mae'n rhaid i chi lenwi ffurflenni cais.



Mae **nawdd** yn arian y mae pobl neu fudiadau yn medru eu cael i'w helpu i wneud eu gwaith.




**Dywedodd pobl ddu a phobl groenliw nad ydynt yn ddu wrthyn ni:**

- Bod ffurflenni cais yn anodd iawn i'w llenwi.
- Bod ffurflenni cais yn hyd yn oed mwy anodd os ydych chi'n **wahanol** mewn ffyrdd eraill hefyd. Er enghraifft, os ydych chi'n berson anabl. Neu'n berson **niwrowahanol**.
- Nid yw grwpiau **amrywiaethol** yn cael yr help sydd ei angen arnyn nhw â ffurflenni cais.
- Mae'n llawer mwy anodd i bobl ddu a phobl groenliw nad ydynt yn ddu gael nawdd ar gyfer prosiectau celfyddyd.

# Ei gwneud hi'n fwy hawdd cael nawdd



Roedd gan y bobl y siaradon i â nhw syniadau ynglŷn â chael **nawdd**. I'w gwneud hi'n fwy hawdd ac yn decach. Dywedson nhw:




- Dylai ffurflenni cais fod yn fwy hawdd i'w deall.



- Dylai bod gwahanol ffyrdd i wneud cais am **nawdd**. Er enghraifft, ar gyfer pobl sy'n gweld ffurflenni'n rhy anodd.



- Dylai bod rhywun i ofyn am help. Ac i siarad â nhw am syniadau creadigol.




- Dylai bod peth **nawdd** ar gyfer pobl ddu a phobl groenliw nad ydynt yn ddu.



- Dylai bod mwy o bobl **amrywiaethol** mewn swyddi celfyddyd pwysig. Fel bo staff yn deall grwpiau **amrywiaethol** yn well.

# Gweithio gyda phobl ifainc




Dywedodd **pobl ddu a phobl groenliw nad ydynt yn ddu** y byddai'n beth da petai **Cyngor Celfyddydau Cymru** yn ymweld ag ysgolion, colegau, a phrifysgolion.



Byddai hyn yn helpu pobl ifainc ddod i adnabod **Cyngor Celfyddydau Cymru**. A deall sut y mae **Cyngor Celfyddydau Cymru** yn gweithio.



Gallai hyn helpu artistiaid pan fyddan nhw'n gweithio gyda yn **Chyngor Celfyddydau Cymru** ddiweddarach.



Rydyn ni'n gwybod bod **Amgueddfa Cymru** yn barod yn gweithio gyda phobl ifainc.



Ond nid yw rhai **pobl dduon a phobl groenliw nad ydynt yn ddu** yn teimlo bod iddyn nhw groeso yn **Amgueddfa Cymru**. Yn enwedig pan fyddan nhw'n mynd yn oedolion.

## Gwneud Cyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru yn well.



Mae **Cyngor Celfyddydau Cymru** ac **Amgueddfa Cymru** yn dweud bod arnyn nhw eisiau bod yn **gynhwysol**.

Mae **cynhwysol** yn meddwl y gall pawb gymryd rhan, a bod pawb yn cael cyfle teg.



Ond maen nhw'n rhoi llawer mwy o **nawdd** i artistiaid a grwpiau gwyn. A llawer mwy o gefnogaeth.



Dylai **Cyngor Celfyddydau Cymru** ac **Amgueddfa Cymru** fod yn decach.



Dylen nhw gefnogi **pobl ddu a phobl groenliw nad ydynt yn ddu** cymaint ag y maen nhw'n cefnogi pobl wyn.



A rhoi yr un cyfleoedd iddyn nhw.

# Gwneud Cyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru yn fwy amrywiaethol



Dywedodd **pobl ddu a phobl groenliw** nad **ydynt yn ddu** wrthyn ni nad ydyn nhw'n cael eu gweld fel Cymry. Oherwydd nad ydyn nhw'n wyn.




Weithiau y mae methu siarad Cymraeg yn rhwystro pobl ddu a **phobl groenliw** nad **ydynt yn ddu rhag cael nawdd**. A gwaith.



Nid yw **Cyngor Celfyddydau Cymru** ac **Amgueddfa Cymru** yn **gynhwysol** o grwpiau **amrywiaethol** o bobl.




Ac nid oes gan **Gyngor Celfyddydau Cymru** ac **Amgueddfa Cymru** lawer o staff **amrywiaethol**. Byddai cael mwy o staff **amrywiaethol** yn eu helpu i ddeall grwpiau **amrywiaethol** yn well.



A gwneud **Cyngor Celfyddydau Cymru** ac **Amgueddfa Cymru** yn well am gefnogi grwpiau a phrosiectau amrywiaethol.

# Beth ddigwyddodd nesaf



Ar ôl Rhan 3, fe wnaethon ni restr o ofynion ar gyfer **Cyngor Celfyddydau Cymru** ac **Amgueddfa Cymru**. Mae gofynion yn bethau mae arnon ni eisiau eu gweld yn digwydd.



Mae gan bob un o'r gofynion derfynau amser gwahanol. Mae arnon ni eisiau i **Gyngor Celfyddydau Cymru** ac **Amgueddfa Cymru** gadw at y terfynau amser hyn.



Mae arnon ni eisiau i **Gyngor Celfyddydau Cymru** ac **Amgueddfa Cymru** ddweud wrthyn ni sut maen nhw'n bwriadu cwrdd â'n gofynion.




Gwaethon ni roi tri mis iddyn nhw ddweud eu cynlluniau wrthyn ni.



Mae arnon ni eisiau i **Gyngor Celfyddydau Cymru** ac **Amgueddfa Cymru** weithio'n agos gyda ni. A rhoi grym i ni wneud newidiadau

# Ein rhestr o ofynion

## 1. Rydyn ni'n mynnu bod Celfyddydau Cymru yn decach ar gyfer pawb



Mae arnon ni eisiau i **bobl ddu a phobl groenliw nad ydynt yn ddu** gael yr un cyfleoedd â phobl wyn.



A'r un cefnogaeth.



Mae arnon ni eisiau mwy o **nawdd** ar gyfer **pobl ddu a phobl groenliw nad ydynt yn ddu** yn y celfyddydau.



Ac ar gyfer artistiaid sy'n byw mewn **tlodi**.



Mae arnon ni eisiau i fudiadau sy'n **gynhwysol** gael mwy o gefnogaeth. A mwy o **nawdd**.




Mae arnon ni eisiau i fudiadau sy’n gyfrifol am **nawdd** fod yn fwy a**mrywiaethol**. Fel eu bod yn trin grwpiau **amrywiaethol** yn fwy teg.



Mae arnon ni eisiau i grwpiau **amrywiaethol** gael mwy o help â’u prosiectau celfyddyd.   Er enghraifft, help â cheisiadau am **nawdd**. Neu cael rhywun i siarad â nhw am syniadau creadigol.



Mae arnon ni eisiau i leoliadau gwaith ac offer sydd ddim yn cael eu defnyddio i gael rhannu. Er enghraifft, gadael i gymunedau lleol ddefnyddio defnyddiau celfyddyd sydd ddim yn cael eu defnyddio gan neb arall.




Mae arnon ni eisiau i bob dogfen fod yn hawdd ei deall. Ac mewn iaith y gall defnyddwyr ei deall.



Mae arnon ni eisiau i holl staff **Cyngor Celfyddydau Cymru** ac **Amgueddfa Cymru** weithio mewn cymunedau amrywiaethol. Byddan nhw’n dysgu mwy am bobl **amrywiaethol** wedyn.

## 2. Rydyn ni'n mynnu bod gwahaniaethu yn dod i ben yng nghelfyddydau Cymru



Os bydd rhywun yn gadael ei swydd oherwydd **gwahaniaethu**, dylai gael ei dalu o hyd. Mae hyn yn cynnwys Pobl Anabl.



Mae arnon ni eisiau **nawdd** ar gyfer y bobl ganlynol sydd wedi dioddef gan **wahaniaethu**:

- **Pobl ddu a phobl groenliw** nad **ydynt yn ddu**
- Pobl Anabl
- Pobl **Niwrowahanol**
- Pobl sy'n byw mewn **tlodi**
- **Ffoaduriaid/Ceiswyr Lloches**
- Pobl **Cwiar** a Phobl **Draws**



Mae **ffoadur/ceisiwr lloches** yn rhywun sy'n gadael ei wlad i ddianc rhag perygl. Mae'n gofyn am gael byw mewn gwlad arall.

Mae pobl **Cwiar** yn bobl sydd ddim am gael eu labelu oherwydd eu cenedl neu eu rhywedd.

Mae gan bobl **Draws** genedl wahanol i'r un oedd ganddyn nhw ar eu genedigaeth.




Mae arnon ni eisiau i reolau fod yn decach i **bobl ddu a phobl groenliw nad ydynt yn ddu.**



Mae arnon ni eisiau i bobl gael eu talu'n deg am unrhyw waith maen nhw'n ei wneud. Mae hyn yn cynnwys gwirfoddoli.



Mae arnon ni eisiau i fudiadau celfyddyd fod yn onest ynghylch problemau **gwahaniaethu** sydd ganddyn nhw.



Mae arnon ni eisiau creu **Cyngor Trawsnewid** i weithio gyda **Chyngor Celfyddydau Cymru** ac **Amgueddfa Cymru**.



Bydd y **Cyngor Trawsnewid** yn gwneud yn siŵr bod ein gofynion yn cael eu cwrdd.

## 3. Rydyn ni'n mynnu mwy o amrywiaeth yng nghelfyddydau Cymru



Mae arnon ni eisiau o leiaf tri o bobl ddu yn gweithio ar y Bwrdd ar gyfer **Cyngor Celfyddydau Cymru** ac **Amgueddfa Cymru**.



Mae arnon ni eisiau i **bobl ddu a phobl groenliw nad ydynt yn ddu** gael hyfforddiant ar gyfer swyddi yng **Nghyngor Celfyddydau Cymru** ac **Amgueddfa Cymru**. Er enghraifft, ar gyfer swyddi cyllid neu reoli.



Mae arnon ni eisiau **nawdd** i hyfforddi pobl ddu a phobl groenliw nad ydynt yn ddu sy'n:



- Gyfieithwyr Iaith Arwyddion Prydain
- Sgrindeitlwyr
- Disgrifwyr sain
- Cyfieithwyr



Mae'r rhain i gyd yn ymwneud â iaith a chyfathrebu. Bydd hyn yn gwneud yn siŵr bod digwyddiadau yn **gynhwysol** ar gyfer holl **bobl ddu a phobl groenliw nad ydynt yn ddu**.



Mae'n rhaid i fudiadau celfyddyd sy'n gweithio gyda grwpiau **amrywiaethol** gyflogi staff o'r grwpiau hynny.




Dylai artistiaid a gweithwyr celfyddyd gael **nawdd** i ddysgu gwahanol ieithoedd. Bydd hyn yn eu helpu i fod yn fwy **cynhwysol**.



Mae arnon ni eisiau i'r grwpiau canlynol gael eu cynnwys mwy yng nghelfyddydau Cymru:

- **Pobl ddu a phobl groenliw** nad **ydynt yn ddu**
- Pobl Anabl
- Pobl **Niwrowahanol**
- Pobl sy'n byw mewn **tlodi**
- **Ffoaduriaid/Ceiswyr lloches**
- Pobl **Cwiar** a Phobl **Draws**




Mae arnon ni eisiau mwy o brosiectau celfyddyd sy'n ymwneud â grwpiau **amrywiaethol**. A'u hanesion.



Mae arnon ni eisiau i fwy o bobl fedru defnyddio casgliadau **Amgueddfa Cymru**. Mae hyn yn cynnwys grwpiau cymunedol ac ysgolion.



Mae arnon ni eisiau i'r cyhoedd gael dweud eu barn ynghylch y casgliadau hyn. A dweud sut i'w gwneud yn fwy **amrywiaethol** a **chynhwysol**.

## 4. Rydyn ni'n mynnu bod Cyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru yn gwneud newidiadau mawr



Mae **Cyngor Celfyddydau Cymru** yn recriwtio **Asiant dros Newid**. Bydd y person hwn yn helpu i wneud y celfyddydau'n fwy cynhwysol.



Rydyn ni'n meddwl bod y gwaith hwn yn rhy fawr ar gyfer un person. Mae arnon ni eisiau i **Gyngor Celfyddydau Cymru** recriwtio tîm cyfan i wneud y gwaith hwn.



Dim ond ar gyfer rhai swyddi mae **Cyngor Celfyddydau Cymru** ac **Amgueddfa Cymru** yn cyflogi staff **amrywiaethol**.Mae arnon ni eisiau i hyn newid.



Dylai **Cyngor Celfyddydau Cymru** ac **Amgueddfa Cymru** gael staff amrywiaethol yn gwneud pob math o swyddi.



Mae arnon ni eisiau i **Gyngor Celfyddydau Cymru** ac **Amgueddfa Cymru** ddweud wrthyn ni faint mae eu staff yn cael eu talu. Er mwyn i ni wneud yn siŵr ei fod yn deg.




Mae arnon ni eisiau i holl staff **Cyngor Celfyddydau Cymru** ac **Amgueddfa Cymru** fod wedi cymhwyso yn eu rolau. Ac i ddeall y cymunedau maen nhw'n gweithio gyda nhw.



Mae arnon ni eisiau i **Gyngor Celfyddydau Cymru** ac **Amgueddfa Cymru** ddweud i bwy maen nhw'n rhoi **nawdd**. Er mwyn i ni fedru gwneud yn siŵr eu bod yn bod yn deg.



Os yw mudiadau'n dweud eu bod yn mynd i weithio gyda grwpiau **amrywiaethol**, mae'n rhaid iddyn nhw brofi hynny. Os na fedran nhw, dylen nhw golli eu **nawdd**.



Mae arnon ni eisiau i'r holl staff wneud **hyfforddiant rhagfarn ddiarwybod.**Y mae'r hyfforddiant hwn yn eich helpu i weld sut y mae **gwahaniaethu** yn medru digwydd heb i chi hyd yn oed sylwi.




Mae arnon ni eisiau i gelfyddydau Cymru ddysgu oddi wrth y camgymeriadau y gwnaethon nhw yn y gorffennol. Ac i wneud yn well yn y dyfodol.

# Geiriau anodd

## Amrywiaethol

Mae amrywiaethol yn meddwl nad ydyn ni i gyd yr un fath. Er enghraifft, mae pobl yn dod o wahanol gefndiroedd, yn gwneud gwahanol ddewisiadau neu'n dda am wahanol bethau.

## Cwiar

Mae pobl gwiar yn bobl sydd ddim am gael eu labelu oherwydd eu cenedl neu eu rhywedd.

## Cynhwysol

Mae cynhwysol yn meddwl y gall pawb gymryd rhan, a bod pawb yn cael cyfle teg.

## Ffoadur/Ceisiwr lloches

Mae ffoadur/ceisiwr lloches yn rhywun sy'n gadael ei wlad i ddianc rhag perygl.  Mae'n gofyn am gael byw mewn gwlad arall.

## Gwahaniaethu

Mae rhywun yn gwahaniaethu yn eich erbyn pan fyddwch chi'n cael eich trin yn wael neu'n annheg oherwydd eich rhyw, eich hil, eich crefydd, eich anabledd neu eich hunaniaeth rywiol.

## Nawdd

Mae nawdd yn arian y mae pobl neu fudiadau yn medru eu cael i'w helpu i wneud eu gwaith.

## Niwrowahanol

Mae pobl niwrowahanol yn bobl sydd â'u meddyliau yn gweithio mewn gwahanol ffyrdd.

## Tlodi

Mae tlodi yn meddwl nad oes gennych chi ddigon o arian i dalu eich biliau a bwydo eich hun a'ch teulu, i wresogi eich cartref, i brynu'r pethau mae arnoch chi eu hangen a mynd o gwmpas.

## Traws

Mae gan bobl Draws genedl wahanol i'r un oedd ganddyn nhw ar eu genedigaeth.